



Cymraeg Gwaith
Work Welsh

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru

Dysgu Cymraeg

Atodiad Cymraeg Gwaith

Mynediad – Entry (A1)
(De Cymru – South Wales)



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Dysgu
Learn

Croeso i'r atodiad Cymraeg Gwaith

Mae'r ymarferion yn yr atodiad hwn yn mynd i'ch helpu chi i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith wrth i chi ddysgu. Mae angen i chi ddilyn y cwrs Mynediad (A1), un uned ar y tro, ac yna gobeithio bydd yr ymarferion yn yr atodiad yn helpu gyda'r cyd-destun gwaith. Mae pob gweithle yn unigryw ond mae sawl agwedd yn berthnasol i lawer o leoliadau, fel cyrraedd, gadael, cymryd gwyliau, ymateb i reolwr, dweud beth mae cydweithwyr yn gallu ei wneud ac ati. Bydd eich tiwtor yn eich helpu i deilwra'r ymarferion er mwyn iddyn nhw fod yn addas i'ch lle gwaith chi.

Pob lwc!

Welcome to the Cymraeg Gwaith supplement

The exercises in this supplement will help you to use more Welsh at work as you learn the language. You will need to follow the Mynediad / Entry (A1) course, one unit at a time, then the extra exercises in this supplement will hopefully help you to transfer the patterns you learn to the work context. Every type of workplace is unique but some aspects such as arriving, departing, taking annual leave, responding to a manager, noting what colleagues can do etc, will be relevant to many settings. Your tutor will help you to adapt the exercises in order to get a good fit - for your workplace.

Pob lwc!

UNED 1

POBL YN Y GWAITH



TI neu CHI?

*When you address a colleague, will it be informal **ti** or the formal **chi**?
As you know, more than one person will always be **chi**.*

Choose three people at your workplace and say how you would greet them.

Enw	Sut wyt ti? NEU Sut dych chi?	How will he/she/they reply?

*Now try your script with a partner. Name the colleague and ask the question.
Your partner must guess which answer you used. Maybe you can say why you
have used **ti** or **chi**.*

Try a new question for the same people and fill in their answers

Enw	Ble rwyt ti'n byw? NEU Ble dych chi'n byw?	How will he/she/they reply?

Ynganu / Pronunciation



Practise reading places of work with 'the' in the name – y:

y ffatri

the factory

y garej

the garage

y coleg

the college

y sŵ

the zoo

y gwesty

the hotel

y siop

the shop

y caffi

the cafe

y labordy

the laboratory

Now places of work starting with a vowel – so yr:

yr ysgol

the school

yr ysbyty

the hospital

yr orsaf dân

the fire station

yr ardd fotaneg

the botanic garden

*Have fun guessing the meaning with your partner, but **ynganu** / pronunciation is the most important thing at present. Picture clues are on the next page.*

y ffatri

y garej

y coleg

y sŵ

y gwesty

y siop

y caffï




y labordy

yr ysgol

yr ysbyty

yr orsaf dân

yr ardd fotaneg



UNED 2

Geirfa

fan – van

swyddfa – office

bws mini – mini-bus

seiclo – to cycle

ar y ffordd – on the road, on the way

bob dydd – every day

bob nos – every night

Beth sy'n bod? – What's the matter?

SGWRS

Gyrrwr: Dw i ddim yn hapus, Ceri.

Bòs: O? Beth sy'n bod?

Gyrrwr: Dw i ddim yn hoffi'r bws mini.

Bòs: Y bws mini? Rwyt ti'n gyrru'r bws mini bob dydd.

Gyrrwr: Wrth gwrs. Dyna'r broblem. Bob dydd. Bob bore, bob nos. Bob dydd.

Bòs: Wyt ti'n hoffi'r fan?

Gyrrwr: Ydw, dw i'n hoffi'r fan.

Bòs: Reit, dim problem. Yfory, dw i'n gyrru'r bws mini. Rwyt ti'n gyrru'r fan.

Gyrrwr: Da iawn. Gwaith newydd i fi.

Bòs: Gwaith newydd i fi hefyd. Dw i yn y swyddfa bob dydd.

Yfory dw i ar y ffordd!

Siaradwch / Talk about it

e.e. / e.g. Wyt ti'n hoffi gyrru?

Ydw ✓

Nac ydw ✗

Enw	Mynd i'r gwaith bob dydd?	Gyrru i'r gwaith?	Hoffi gyrru?	Hoffi seiclo?

Geiriau / Words

Llenwch y bylchau: *Fill in the gaps*

n _ w _ dd

s w _ dd _ a

ff _ r _ _

h a _ u _

bob

gyrru

mini

hoffi

mynd

Dw i ddim yn _ _ _ _ _ gyrru'r bws _ _ _ _ _.

Dw i'n _ _ _ _ _ i'r gwaith _ _ _ _ _ dydd.

Yfory, dw i'n _ _ _ _ _ 'r fan.

UNED 3

Geirfa

deall – *to understand*

perffaith – *perfect*

tawel – *quiet*

SGWRS

- Darllen ac actio / Read and act the parts

Bore perffaith i'r bès

- A: Bore da. Dych chi eisiau help?
B: Dim diolch.
A: Dych chi eisiau coffi?
B: Dim diolch.
A: Wel, beth dych chi eisiau?
B: Dw i eisiau bore tawel yn y swyddfa.
A: O, iawn. Dw i'n deall nawr.
....
A: Helô eto.
B: Beth nawr?
A: Dyma 'headphones' i chi.
B: Ha ha. Diolch yn fawr.



Cyfieithwch / Translate

I want a quiet morning.

I don't want coffee.

Do you want headphones?

I understand now.

I want a new boss.

A perfect boss.

Write two things that would make your morning at work perfect.

Bore perffaith yn y swyddfa i fi.

1. Dw i eisiau

2. Dw i

UNED 4

Geirfa

Neuadd y Sir – *County Hall*

cwrs – *a course*

cwsmer – *customer*

cyfarfod – *meeting*

grant(iau) – *grant(s)*

stoc – *stock*

llogi – *to hire*

prysur – *busy*

Holi partner / Asking a partner

A: Ble rwyd ti'n mynd yfory?

B: Dw i'n mynd i Abertawe.

A: Pam?

B: Dw i'n mynd i brynu stoc newydd.

Now use the panels on the next page to ask and answer more questions.



Person A**WYTHNOS BRYSUR YN Y GWAITH**a) **Ble dych chi'n mynd? / Ble rwyf ti'n mynd?**b) **Pam?**

Dydd Llun		
Nos Lun	i Landrindod	i weld cwsmer
Dydd Mawrth		
Dydd Mercher	i'r dre	i logi car
Dydd Iau		
Dydd Gwener	i'r swyddfa	i'r cyfarfod staff

Person B**WYTHNOS BRYSUR YN Y GWAITH**a) **Ble dych chi'n mynd? / Ble rwyf ti'n mynd?**b) **Pam?**

Dydd Llun	i Neuadd y Sir	i'r cyfarfod mawr
Nos Lun		
Dydd Mawrth	i Wrecsam	i brynu stoc newydd
Dydd Mercher		
Dydd Iau	i'r cwrs	i ddysgu am y grantiau newydd
Dydd Gwener		

UNED 5

Geirfa

derbynfa – *reception*

seren – *star*

stiwidio – *studio*

iechyd a diogelwch – *health and safety*

siarad (â) – *to speak, to talk (to)*

siarad (am) – *to speak, to talk (about)*

hyfryd – *lovely*

yn anffodus – *unfortunately*

Gwranddo / Darllen *Listening / Reading*

Sgwrs Anna a Betsan

A: Welaist ti (*Did you see*) Arwyn yn y swyddfa ddoe?

B: Naddo. Ond gwelais i Huw Stephens yn y BBC ddoe.

A: Sut?

B: Siaradais i ar Radio Cymru am Iechyd a Diogelwch yn y gwaith. Gwelais i Huw Stephens yn y dderbynfa.

A: O na, dim Iechyd a Diogelwch!

B: Ie, Iechyd a Diogelwch. Dim byd i raglen Huw Stephens, yn anffodus!

A: A wel, rwy'ti'n seren radio nawr. Da iawn ti.



Gwranddo a Gwyllo

Dych chi eisiau gweld Huw Edwards a Huw Stephens yn siarad Cymraeg?



- Huw Edwards yn siarad am 'Patagonia'
<https://www.youtube.com/watch?v=DCgfMJ4jH0s>



- Huw Stephens yn siarad am Ddydd Miwsig Cymru
<https://www.youtube.com/watch?v=f1W1JpX3lls>

Tasgau Pwysig yn y Gwaith / Important Tasks at Work

Gyda phartner, marciwch bob un – 1 tic, 2 neu 3 /
With your partner, mark each one with 1, 2 or 3 ticks

✓✓✓ Pwysig iawn ✓✓ Pwysig ✓ Ddim yn bwysig

ateb y ffôn

gwneud coffi

bwyta cinio

siarad â staff

darllen ebost

ymlacio

ysgrifennu ebost

gwneud te

Mae'r tiwtor yn dweud: "Mae ymlacio yn bwysig iawn ✓✓✓"

Holiadur / Questionnaire

Beth wnest ti yn y gwaith ddoe?

Edrychwch ar y rhestr am 2 syniad / Look at the list for 2 ideas

e.e. / e.g. Ysgrifennais i ebost.

Person 1	Person 2	Person 3

Cân

(you and your tutor can sing with or without irony!)

Tôn: 'John Brown's Body'

Bob dydd dw i'n ysgrifennu ebost
 Dw i'n siarad lot â Gwen ac Euros,
 Cael coffi neis a Jammy Dodger
 Dw i'n ateb y ffôn a dweud 'Shwmae'.

Cytgan:

O, dw i'n hoffi gweithio yma
 O, dw i'n hoffi gweithio yma
 O, dw i'n hoffi gweithio yma
 Dw i'n ymlacio yn y gwaith.



UNED 6

Geirfa

adran – *department*

awr – *hour*

diwrnod – *a day*


ffisiotherapi – *physiotherapy*

maes parcio – *car park*

tan – *until*

Mathemateg!

- a) Dw i'n gweithio chwech awr bob dydd.
Dw i'n gweithio pedwar diwrnod bob wythnos.
Dw i'n gweithio awr bob wythnos.
- b) Wythnos diwetha gweithiais i bob dydd (o ddydd Llun i ddydd Gwener) a gweithiais i un *shifft* nos hefyd.
Gweithiais i o naw o'r gloch y bore tan dri bob
Nos Wener gweithiais i *shifft* nos o ddeg o'r gloch y nos tan chwech o'r gloch y bore.
Gweithiais i awr yr wythnos diwetha!



Disgrifiwch eich diwrnod gwaith i'ch partner / Describe your working day to your partner. We have set out an example here for you to follow – but say something different where you can.

<p>Eirian dw i.</p>	
<p>Dw i'n gweitho yn yr ysbyty.</p>	
<p>Dw i'n gweithio yn y swyddfa gyda Huw a Sophie.</p>	
<p>Dw i'n dechrau gweithio am wyth yn y bore.</p>	
<p>Dw i'n gorffen gweithio am bedwar yn y prynhawn.</p>	
<p>Dw i'n hoffi siarad â Doctor Roberts a Nyrs Murphy yn yr adran ffisiotherapi.</p>	
<p>Siaradais i Gymraeg gyda Doctor Roberts ddoe – tipyn bach.</p>	
<p>Dw i'n gallu siarad Cymraeg â'r plant bach hefyd.</p>	
<p>Dw i ddim yn hoffi gyrru i'r gwaith. Mae hi'n brysur iawn yn y maes parcio.</p>	

Geirfa

gwesty – *hotel*

Parc Cenedlaethol – *National Park*

proffil – *profile*

dyfalu – *to guess*

ifanc – *young*

NABOD POBL YN Y GWAITH / KNOWING PEOPLE AT WORK

Dyma Melanie, Martin a Sioned.

Proffil Melanie

- Mae hi'n hoffi peintio a garddio.
- Mae hi'n dysgu Cymraeg.
- Mae hi'n gallu siarad yn dda – ar y radio neu ar y teledu.
- Dyw hi ddim yn gallu gyrru.
- Mae hi'n dod o Abertawe.



Proffil Martin

- Mae e'n gallu ysgrifennu'n dda.
- Mae e'n hoffi rhedeg.
- Mae e'n gallu gyrru tractor.
- Mae e'n hoffi gweithio tu allan / tu fas.
- Dyw e ddim yn siarad Cymraeg.
- Mae e'n dod o Iwerddon.



Proffil Sioned

- Mae hi'n hoffi tynnu llun gyda'r camera.
- Mae hi'n hoffi chwarae gyda Photoshop hefyd.
- Mae hi'n gallu seiclo.
- Mae hi'n siarad Cymraeg.
- Dyw hi ddim yn hoffi ysgrifennu ebost.
- Mae hi'n dod o Aberteifi.



Dyfalw gyda'ch partner / Guessing with your partner

Does dim ateb cywir nac anghywir / There is no correct or incorrect answer

Ble mae Sioned yn gweithio?

yn yr ysgol feithrin yn y siop ffrwythau yn y stiwdio deledu

Ble mae hi **eisiau** gweithio?

Ble mae Melanie'n gweithio?

yn y ganolfan hamdden yn y gwesty yn y banc

Ble mae hi **eisiau** gweithio?

Ble mae Martin yn gweithio?

yn y Parc Cenedlaethol yn y siop ffonau yn y dafarn

Ble mae e **eisiau** gweithio?

CARDIAU CWESTIWN

Ydy Martin yn dod o'r Alban?	Ydy Sioned yn hoffi ysgrifennu ebost?
Ydy Melanie'n dod o Gaerfyrddin?	Ydy Martin yn gallu gyrru tractor?
Ydy Sioned yn dod o Abertawe?	Ydy Martin yn siarad Cymraeg?
Ydy Melanie'n gallu gyrru?	Ydy Sioned yn siarad Cymraeg?
Ydy Martin yn dod o Iwerddon?	Ydy Sioned yn hoffi Photoshop?
Ydy Melanie'n dod o Abergele?	Ydy Sioned yn gallu seiclo?
Ydy Martin yn gallu ysgrifennu'n dda?	Ydy Melanie'n gallu siarad yn dda ar y radio?
Ydy Sioned yn dod o Aberteifi?	Ydy Melanie'n hoffi peintio?
Ydy Melanie'n gallu siarad Cymraeg?	Ydy Martin yn hoffi rhedeg?

UNED 8

Geirfa

apwyntiad – *appointment*

cwsmer – *customer*

cydweithiwr – *colleague*

dyddiadur – *diary*

anhapus – *unhappy*

Dim ond gofyn / Just asking

Beth dych chi'n ei ofyn i ffrind a beth dych chi'n ei ofyn i berson newydd?

What would you ask of a friend and what would you ask of a stranger?

Rhowch bob cwestiwn yn y lle cywir ac ymarfer gyda phartner /

Place each question in the appropriate pile and practise with your partner

Gofyn i ffrind / cydweithiwr



Ateb:

'Cei, wrth gwrs'

Gofyn i berson 'newydd'



Ateb:

'Cewch, wrth gwrs'

Gaf i eistedd yma os gwelwch chi'n dda?

Gaf i lifft i'r dre?

Gaf i brynu dau docyn i'r ffilm?

Gaf i'ch enw chi?

Gaf i brynu coffi i ti?

Gaf i dalu am y parti Nadolig yr wythnos nesa?

Gaf i orffen y cyfarfod tîm yn gynnar heddiw?

Gaf i siarad â'r rheolwr?

TAIR SGWRS: dau gwsmer hapus, un cwsmer anhapus

Darllenwch ac actio / Read and act the parts

SGWRS UN

- A: Bore da. Gaf i helpu?
 B: Gaf i siarad â Mr Roberts, os gwelwch chi'n dda?
 A: Cewch, wrth gwrs. Beth yw'r enw?
 B: Bethan Bowen.
 A: Un funud. Dyma Mr Roberts i chi nawr.
 B: Diolch yn fawr.

SGWRS DAU

- A: Bore da. Cyngor Abercastell. Gaf i helpu?
 C: Bore da. Ydy Pat Evans ar gael?
 A: Nac ydy, mae'n ddrwg gyda fi. Dim heddiw.
 C: Gaf i ffonio yfory, yn y bore?
 A: Cewch, wrth gwrs. Mae Pat Evans yn gweithio bore fory.
 C: Diolch yn fawr. Hwyl fawr.
 A: Hwyl.

SGWRS TRI

- A: Bore da. Gaf i helpu?
 G: Dw i yma i weld Mr Roberts.
 A: Mr Roberts? Mae'n ddrwg gyda fi, dyw e ddim ar gael.
 G: Ffoniais i ddoe. Mae apwyntiad gyda fi am hanner awr wedi tri.
 A: O diar. Mae Mr Roberts yn Abertawe heddiw. Beth yw'r enw?
 G: Gerwyn Lewis.
 A: O, mae'n ddrwg gyda fi, Mr Lewis. Dw i'n gweld yr enw yn y dyddiadur.
 Dych chi eisiau gweld Sam Jones, cydweithiwr Mr Roberts?
 G: Nac ydw! Gaf i weld Mrs Roberts 'te?
 A: Yn anffodus, mae hi'n brysur tan hanner awr wedi pedwar. Gaf i wneud paned i chi?
 G: Cewch. Mae hi'n oer iawn heddiw.



UNED 9

Geirfa

stad ddiwydiannol – *industrial estate*

batri(s) – *battery(-ies)*

cwmni – *company*

bocs(ys) – *box(es)*

credyd – *credit*

gwastraff – *waste*

label(i) – *label(s)*

warws – *a warehouse*

ailgylchu – *to recycle*

dal – *to hold*

enfawr – *huge*

Darllenwch gyda'ch partner / Read with your partner:

Dyddiadur Manon: Bore Ardderchog

Am 9.00 o'r gloch gyrrais i i'r warws ar y stad ddiwydiannol.

Edrychais i ar y bocsys plastig enfawr.

Prynais i bump bocs du, deg bocs oren a chwe bocs coch.

Hefyd, prynais i focs bach i ddal batris.

Talais i'r bil gyda'r cerdyn credyd – cerdyn y cwmni.

Gyrrais i i'r gwaith.

Ysgrifennais i labeli: SBWRIEL, AILGYLCHU, GWASTRAFF BWYD.

Ysgrifennais i ddim label 'HEN FATRIS' - ysgrifennais i'r geiriau ar y bocs bach.

Siaradais i â'r bôs. Beth ddwedodd hi? 'Mae pawb yn gallu ailgylchu nawr.'

Trafodwch gyda phartner / Discuss with your partner

Beth brynodd Manon yn y warws?

.....

Brynodd Manon fwyd yn y warws?

.....

Sut talodd Manon yn y warws?

.....

Beth ysgrifennodd Manon ar y bocs bach?

.....

Siaradodd hi â'r bôs?

.....

Beth ddwedodd y bôs?

.....

Beth wnaeth Manon? / *What did Manon do?*

Ysgrifennwch y stori gyda'ch partner. Dilynwch yr esiampl.

With your partner, write an account of what she did, following the example

Am 9 o'r gloch gyrodd hi i'r warws

Ysgrifennu mewn dyddiadur personol / Writing in a personal diary.

Beth wnest ti ddoe yn y gwaith?

Dyddiadur

A large white rectangular area with rounded corners, containing the word 'Dyddiadur' in a cursive font and a series of horizontal blue lines for writing.

Geirfa

sosban (sosebenni) – *saucepan(s)*

ysgol feithrin – *nursery school*

myfyrwr (myfyrwyr) – *student(s)*

olew – *oil*

profiad – *experience*

profiad gwaith – *work experience*

sgil – *skill*

newid – *to change*

trin gwallt – *hairdressing*

Siarad am brofiad gwaith gyda phartner / *Discussing work experience with your partner (even if it was some time ago!)*

e.e / e.g

A: Est ti ar brofiad gwaith?

B: Do. Es i ar brofiad gwaith yn yr ysbyty.

A: Es i ddim ar brofiad gwaith o gwbl!

Aeth Sandra ar brofiad gwaith yn Spar.

Aeth Tomos ar brofiad gwaith gyda'r adeiladwyr Kinver a Jones.



MYFYRWYR AR BROFIAD GWAITH – CARDIAU STUDENTS ON WORK EXPERIENCE – CARDS

Edrychwch ar y sgil a dewis ble aeth pawb.

Look at the skill and decide where each student went on work experience

y garej

y stiwdio deledu

yr ysgol feithrin

y dderbynfa

y tŷ bwyta

y siop trin gwallt

<p>SGIL:</p> <p>Dysgodd Heledd sut i ddarllen y bwletin tywydd.</p>	<p>Aeth hi ar brofiad gwaith yn</p>
<p>SGIL:</p> <p>Dysgodd Dan sut i olchi gwallt.</p>	<p>Aeth e ar brofiad gwaith yn</p>
<p>SGIL:</p> <p>Dysgodd Kevin sut i olchi sosbenni!</p>	<p>Aeth e ar brofiad gwaith yn</p>
<p>SGIL:</p> <p>Dysgodd Mari sut i ganu 'Gee, ceffyl bach'.</p>	<p>Aeth hi ar brofiad gwaith yn</p>
<p>SGIL:</p> <p>Dysgodd Michelle sut i ateb y ffôn.</p>	<p>Aeth hi ar brofiad gwaith yn</p>
<p>SGIL:</p> <p>Dysgodd Cerys sut i newid yr olew mewn car.</p>	<p>Aeth hi ar brofiad gwaith yn</p>

Beth ddigwyddodd wedyn? / What happened next?

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau / With your partner, fill in the blanks

DIWEDD PROFIAD GWAITH! HWRÊ

Ble aeth y myfyrwyr wedyn?

??? i'r llyfrgell i'r dafarn i'r parti i'r coleg ???

Aethon nhw

Wedyn aethon nhw

Aethon nhw ddim

Aethon nhw ddim



Geirfa

swydd – *job, a post*

cyfweiliad – *interview*

lwc – *luck*

nerfus – *nervous*

SGWRS

Yn y siop

- A: Ble aeth Mari ddoe?
B: Aeth hi i Aberystwyth.
A: Aberystwyth? Pam?
B: Cafodd hi gyfweiliad ddoe yn y siop lyfrau.
Swydd rheolwr y siop.
A: Mae hi'n siop hyfryd. Gafodd Mari'r swydd?
B: Naddo. Dim lwc.
A: Trueni. Ydy Mari'n hoffi darllen 'te?
B: Nac ydy, a dweud y gwir.
A: Wel well!



Trafod gyda phartner / *Discussing with a partner*

Ble cafodd Mari gyfweiliad?

Gafodd Mari'r swydd?

A ti?

Wyt ti'n hoffi cael cyfweiliad?

Wyt ti'n nerfus mewn cyfweiliad?

BINGO GEIRIAU GWAITH

Dyma'r cardiau geiriau i'r person sy'n galw.

swyddfa	gwyliau	adran	ymlacio
cwmni	ffatri	sbwriel	cyfarfod
anhapus	adeiladwr	coleg	rheolwr
dyddiadur	cwrs	peiriant	sgil
llogi	cyfweliad	derbynfa	apwyntiad
profiad gwaith	iechyd	cydweithiwr	label
diogelwch	cerdyn credyd	ailgylchu	cwsmer
stiwddio	pysur	ebost	bòs

Gwnewch eich cerdyn eich hun / Make your own card.

Ysgrifennwch 6 gair yn y blychau / Write 6 words in the boxes.



CERDYN BINGO

Geirfa

tywel(ion) – towel(s)

Siarad am y cwmni perffaith / Talking about the perfect company


e.e. / e.g.

1. Mae bôs hyfryd gyda nhw!
2. Mae biniau ailgylchu gyda nhw yn y swyddfa.
3. Does dim un rheolwr diflas gyda nhw.

Nawr edrychwch ar eich cerdyn a dwedwch rywbeth da am y cwmni /
Now look at your card and say something good about the company

maes parcio mawr	tywelion glân yn y toiledau
sied feiciau	staff hapus
dim apwyntiadau ar brynhawn Gwener	ystafell gyfarfod fawr
peiriant coffi da yn yr ystafell staff	blodau yn y dderbynfa

Wedyn, rhowch y cardiau ar y bwrdd mewn trefn /
Then, place the cards in order



Nawr, triwch eto gyda'r cardiau newydd. Now try with the new cards.

maes parcio yn y toiledau
sied	staff
dim ar brynhawn Gwener	ystafell fawr
..... da yn yr ystafell staff yn y dderbynfa

PROBLEM SYML

Darllenwch wedyn actiwch heb sgript. / Read then act it without a script.


(Wyneb wrth y drws / a face at the door)

- A. Shwmae, Alys ...
- B. Shwmae, Beti. Sut wyt ti?
- A. Iawn, ond ... Wel, oes pum munud gyda ti?
- B. Oes, wrth gwrs. Dere i mewn.
- A. Diolch. Mae problem gyda fi.
- B. Beth sy'n bod?
- A. Does dim coffi gyda fi. A dw i EISIAU coffi. Dw i'n DESPERATE!
- B. Dim problem – mae coffi gyda fi!
Dyma'r coffi i ti.
- A. O, diolch yn fawr.




Dim sgript, ond mae CARDIAU COFIO gyda chi.
No script this time but use PROMPT CARDS.

Beti



Alys



Geirfa

cynhadledd – *conference*

adborth – *feedback*

lansiad – *launch*

rheswm – *reason*

saflle – *site*

siaradwr – *speaker*

blasus – *tasty*

Y gynhadledd / The conference yn y NEC, Birmingham.

Beth yw'r adborth? *What is the feedback?*

Er enghraifft / *for example:*

Roedd yr ystafell yn fawr!

Dewiswch un cerdyn a rhoi adborth / *Choose one card and give feedback following the list.*


Cofiwch y treiglad meddal / *Remember the soft mutation*

Weithiau mae adborth yn bositif,
Feedback is sometimes positive




weithiau mae adborth yn negyddol.
sometimes negative






y tywydd

OER




y staff

DIFLAS




Birmingham

PRYSUR




y trêh

HWYR




y seminar yn y bore

HIR




y cinio

DRUD




y coffi

BENDIGEDIG



y cwmni
DONIOL

.....




y bisgedi
BLASUS

.....




y siaradwr
ARDDERCHOG

.....




y trê'n adre
CYFLYM

.....




y bôs
CYFEILLGAR

.....



y gynhadledd
DEFNYDDIOL

.....



Salwch / Illness

Oedd PAWB yn sâl ddoe? Beth oedd y rheswm?

1. Aeth Gwenda i'r coleg ddoe?

Naddo. Roedd tost gyda hi.

2. Aeth Lauren i'r cyfarfod neithiwr?

..... Roedd pen tost gyda hi ond prynodd hi *Paracetamol* yn y garej.

3. Pam aeth Llew adre'n gynnar ddoe?

.....

4. Est ti i edrych ar y safle ddoe?

.....

5. Gest ti siampên yn y lansiad neithiwr?

.....

Edrychwch ar syniadau eich partner. / Look at your partner's ideas.

Geirfa

ardal – *area*

taith – *journey*

gwirfoddolwr – *volunteer*

diwetha – *last*

gwledig – *rural*

Ffeindiwch yr ateb!

O'n	Nac oedd	Oedd	Nac o'n	O'n	Oedd
-----	----------	------	---------	-----	------

- Oedd Nia'n gweithio neithiwr?
- Oedd y dafarn yn brysur?
- O't ti'n nerfus yn y cyfweiliad?
- Oedd y bobl yn y seminar yn gyfeillgar?
- Oedd e'n drist i werthu'r cwmni?
- O'ch chi'n llogi car yn y swydd ddiwetha?

Stori Sara

Pan o'n i'n blentyn ro'n i'n mwynhau darllen felly ro'n i eisiau gweithio gyda llyfrau. Es i i'r coleg yn Aberystwyth ac yna gweithiais i mewn llyfrgell yng Nghaernarfon am flwyddyn. Ond ro'n i eisiau gweithio mwy gyda phlant felly gwnes i gwrs i weithio mewn Clwb leuenctid, fel gwirfoddolwr. Ro'n i hefyd yn mynd i'r Clwb Ffermwyr Ifanc ac ro'n i'n lwcus iawn i fynd ar daith i Seland Newydd gyda'r Clwb. Ro'n i'n gweithio am chwe mis gyda phobl ifanc mewn ardal wledig yn Seland Newydd. Roedd y chwe mis yn ardderchog. Nawr dw i'n ysgrifennu llyfr am y daith!

Nawr ysgrifennwch chi stori Sara.

Dilynwch yr esiampI. *Follow the example*

Pan oedd Sara'n blentyn, roedd hi'n ...

Lined area for writing the story, consisting of horizontal blue lines on a white background within a rounded yellow frame.

Geirfa

rhestr – a list

parhau – to continue

PARHAU'R SGWRS / Continuing the conversation

Sam: Shwmae. Oes munud gyda chi am sgwrs?

Rheolwr: Oes, dim problem. Wyt ti'n iawn?

Sam: Ydw, ond mae problem gyda fi gyda'r gwyliau.

Rheolwr: Do'n i ddim yn cofio am y gwyliau. Pryd rwyd ti'n mynd – dydd Gwener?

Sam: Wel, dyna'r broblem. Ro'n i'n mynd i hedfan i Palma dydd Gwener ond

PARHAU'R SGWRS / Continuing the conversation

(Mae Del yn gorffen Profiad Gwaith tri mis gyda'r cwmni)

Bos: Iawn, Del, sut roedd y tri mis gyda Gwyliau Tawel?

Del: Wel, roedd mis lonawr yn dawel iawn.

Bos: Wrth gwrs, wrth gwrs. Does dim arian gyda neb ym mis lonawr.

Del: Wedyn, ym mis Chwefror, ces i sioc.

AMSER GWYLIAU

Reit, rwyf ti'n mynd ar wyliau! Wyt ti wedi gwneud popeth?

(Ydw, dw i wedi Nac ydw, dw i ddim wedi ...)

Mae rhestr ar y ddesg

- | | |
|---|---|
| X | Ateb pob ebost |
| X | Gwneud te a choffi i bawb yn y swyddfa |
| ? | Trefnu'r cyfarfod cynta ar ôl y gwyliau |
| X | Ysgrifennu rhestr o dasgau i Ted |
| ? | gwneud popeth ar y rhestr yma! |
| | Rhoi'r rhestr yn y bin. |

5 cwestiwn i'ch partner:

Wyt ti wedi ?



UNED 16

Geirfa

coeden (coed) – *tree(s)*

cleient(iaid) – *client(s)*

cyfanswm – *total*

amcangyfrif – *to estimate*

cynnal – *to maintain; to hold*

cadw – *to preserve; to keep*

ail law – *second hand*

gwaith cynnal a chadw
– *maintenance work*

AMSER

Parau croes / opposite pairs

Atebwch y cwestiwn ac yna gofynnwch y cwestiwn arall /

Answer the question your partner asks you and then ask the corresponding question

e.e. A: Faint o'r gloch mae'r swyddfa'n agor?

B: Mae'r swyddfa'n agor am naw o'r gloch.

A: Faint o'r gloch mae'r swyddfa'n cau?

B: Mae'r swyddfa'n cau am hanner awr wedi pedwar.

Agor : Cau

Faint o'r gloch mae'r adeilad yn agor?

.....

Faint o'r gloch ?



Dechrau : Gorffen

Faint o'r gloch mae'r cyfarfod staff yn dechrau?

.....

Faint o'r gloch ?

Dod : Mynd

Faint o'r gloch mae'r bws yn dod i'r gwaith?

.....

Faint o'r gloch ?

Cyrraedd: Gadael

Faint o'r gloch wyt ti'n cyrraedd y gwaith fel arfer?

.....

Faint o'r gloch ?

ARIAN / Money

Darllenwch gyda'ch partner / Read with your partner

- A:** Mae person pwysig yn dod i'r swyddfa yr wythnos nesa – cleient newydd. Dw i eisiau popeth yn berffaith yma.
- B:** O diar. Wel, mae'r drws ffrynt yn ofnadwy. Wyt ti'n mynd i beintio?
- A:** Fi? Nac ydw, siŵr. Dw i ddim yn gallu peintio.
- B:** Ac mae'r maes parcio yn ofnadwy hefyd. Mae sbwriel ym mhob man. Ac mae'r wal yn cwmpo.
- A:** Iawn, dw i'n mynd i ffonio cwmni Help Llaw.
- B:** Help Llaw? Beth maen nhw'n wneud?
- A:** Maen nhw'n helpu gyda gwaith cynnal a chadw. Maen nhw'n ardderchog!
- B:** Ydyn, gobeithio! Ydyn nhw'n ddrud iawn?
- A:** Ddim yn rhy ddrud, gobeithio.



Amcangyfrif / estimating

£10

£20

£30

£40

£60

£150

£300

Dwedwch y symiau yma mewn geiriau cyn ateb y cwestiynau gyda phartner. / Practise saying the above sums before tackling the questions with a partner.

Faint yw'r paent i beintio'r drws?

Faint yw wal newydd yn y maes parcio?

Faint yw *strimmer*?

Faint yw desg newydd yn y swyddfa?

Faint yw coeden fach mewn potyn ar bwys y drws?

Faint yw blodau i'r dderbynfa?

Faint yw peiriant coffi ail law?








Beth yw'r **CYFANSWM**?

Geirfa

gwaith maes – field work

Gwaith Maes / Fieldwork (Mae'r tywydd yn bwysig!)

Sut bydd y tywydd yfory? Dw i'n gwneud gwaith maes yfory!


Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
						
19°C	15°C	17°C	18°C	18°C	20°C	23°C

Cwestiwn: Fydd hi'n sych am naw o'r gloch yn y bore?

Ateb: Bydd, (gobeithio)

(Cofiwch: Bydd ✓ Na fydd ✗)

Edrychwch ar y siart mawr a holwch eich partner / Look at the bigger chart on the next page and ask your partner questions about the weather at different times of the day.





8.00

Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
19°C	15°C	17°C	18°C	18°C	20°C	23°C

10.00

Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
22°C	17°C	20°C	21°C	20°C	20°C	22°C

12.00

Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
19°C	15°C	17°C	18°C	18°C	20°C	23°C

2.00

Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
22°C	17°C	20°C	21°C	20°C	20°C	21°C

4.00

Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
22°C	17°C	20°C	21°C	20°C	20°C	22°C

6.00

Dydd Mercher	Dydd Iau	Dydd Gwener	Dydd Sadwrn	Dydd Sul	Dydd Llun	Dydd Mawrth
22°C	17°C	20°C	21°C	20°C	20°C	22°C



Cyfarfodydd!

**Gofynnwch gwestiynau i'ch partner i lenwi'r bylchau /
Ask your partner questions to fill the gaps.**

Partner A

	Ble?	Pryd?	Faint o'r gloch?
Cyfarfod staff	yn yr ystafell gyfarfod	dydd Llun	8.30am
Cyfarfod gyda'r awduron			
Cyfarfod gyda'r cwmni glanhau	yn yr ystafell gyfarfod	dydd Mawrth	10.00am
Cyfarfod gyda'r heddlu			
Cyfarfod gyda'r llyfrgellwyr	yn y llyfrgell	dydd Mercher	9.00am
Cyfarfod gyda'r bobl ifanc			

Partner B

	Ble?	Pryd?	Faint o'r gloch?
Cyfarfod staff			
Cyfarfod gyda'r awduron	yn yr amgueddfa	dydd Llun	2.00pm
Cyfarfod gyda'r cwmni glanhau			
Cyfarfod gyda'r heddlu	yn yr orsaf heddlu	dydd Mawrth	3.30pm
Cyfarfod gyda'r llyfrgellwyr			
Cyfarfod gyda'r bobl ifanc	yn y coleg	dydd Mercher	11.00am

Geirfa

costau teithio – *travel expenses*

cyfrifydd – *accountant*

gliniadur – *laptop*

mentora – *to mentor*

rhannu – *to share*

ymuno (â) – *to join*

Person A DIWRNOD PRYSUR YN Y GWAITH

- Ble byddwch chi'n mynd dydd Llun nesa?
- Pryd byddwch chi'n mynd?
- Pam?

8.30am	Gwesty'r Bae	brecwast busnes
10.00am		
11.00am	Neuadd y Sir	cyfarfod pwysig
2.00pm		
3.30pm	Ysgol y Bryn	gweld y pennaeth
4.30pm		

e.e. / e.g. “Am hanner awr wedi wyth bydda i'n mynd i Westy'r Bae...”

(cofiwch y treigladd meddal ar ôl 'i')



Person B DIWRNOD PRYSUR YN Y GWAITH

- Ble byddwch chi'n mynd dydd Llun nesa?
- Pryd byddwch chi'n mynd?
- Pam?

8.30am		
10.00am	Caffi Cled	prynu 3 choffi a chacen i bawb yn y swyddfa
11.00am		
2.00pm	Y Stryd Fawr	edrych ar swyddfa newydd
3.30pm		
4.30pm	swyddfa'r cyfrifydd	siarad am arian

e.e. / e.g. “Am ddeg o’r gloch bydda i’n mynd i Gaffi Cled...”

(cofiwch y treigladd meddal ar ôl ‘i’)

STAFF NEWYDD

Darllenwch gyda phartner / Read with your partner

Anwen: Pryd bydd y staff newydd yn dechrau?

Bob: Yr wythnos nesa, diolch byth. Bydd Huw Morgan a Rhian Prydderch yn dechrau dydd Llun.

A: Wyt ti'n nabod nhw?

B: Nac ydw. Ond mae'r enwau gyda fi achos bydda i'n helpu Huw a byddi di'n helpu Rhian.

A: O na, fydd dim amser gyda fi i helpu person newydd!

B: Fydd dim dewis gyda ti. Bydd hi'n rhannu desg gyda ti.

A: Gobeithio bydd hi'n dysgu'n gyflym! Bydda i'n brysur iawn yr wythnos nesa.

B: Os bydd Huw a Rhian yn dda am wneud paned, bydda i'n hapus iawn!

Trafodwch / discuss

- Pryd bydd Rhian a Huw yn dechrau'r swyddi newydd?
- Pwy fydd yn helpu Huw yr wythnos nesa?
- Fydd Huw yn rhannu desg gyda Rhian?
- Pwy fydd yn gwneud paned yr wythnos nesa?

Neges i'r Tîm Rheoli: manylion am y staff newydd.

(Beth yw'r geiriau coll? / What are the missing words?)

- Huw Morgan a Rhian Prydderch yn ymuno â'r cwmni yr wythnos nesaf.
- nhw'n dechrau dydd Llun nesaf.
- Anwen yn helpu Rhian Prydderch.
- nhw'n rhannu desg.
- Bob yn mentora Huw Morgan.
- ni'n prynu gliniadur yr un i'r staff newydd.



TRI CHWESTIWN – ebostiwch eich ateb os gwelwch yn dda:

Fydd Huw Morgan yn gallu gweithio gartref bob dydd Mercher?

.....

Fydd y staff newydd yn gallu mynd ar y cwrs Iechyd a Diogelwch nesaf?

.....

Fyddan nhw'n cael costau teithio i fynd ar y cwrs?

.....

Siarad am eich gwaith chi yfory – go iawn /

Talking about your working day tomorrow – for real.

e.e.

A: Bydda i'n brysur yfory.

B: Pam?

A: Bydda i gyda'r staff newydd am hanner awr wedi tri, wedyn bydda i'n mynd at y deintydd am bedwar o'r gloch.



Geirfa

ymchwil – *research*

dal – *to catch*

arbennig – *special*

Treigladd Trwynol / Nasal Mutation

Dewiswch un o'r geiriau i fynd yn y blwch / Choose one of the words to fill the gap.

cerdyn credyd

gliniadur

pasbort

trên

bòs

desg

Bydda i'n dal fy i yn **Nhrefforest**.

Defnyddiais i fy i yng **Nghaerdydd**.

Collais i fy i ym **Mharis**.

Prynais i fy i yn **Ne Cymru**.

Bydda i'n gweithio ar fy i yng **Ngwynedd**.

Gwelais i fy i ym **Medwas**.



SIALENS / A CHALLENGE

Gyda'ch partner, gnewch eich brawddegau eich hun / Try constructing similar sentences from these pairings – choose an action that suits e.e. **prynu; ymuno â; gweld; dechrau; bwyta; gorffen** and use the past tense and then the future tense.

e.e. Gorffennais i fy nghwrs yng Nghaerdydd.

Treorci

tocyn

Caerdydd

cwrs

Porthcawl

pennaeth

Dolgellau

dosbarth

Gwynedd

gwaith

Bangor

brechdan

Darllen gyda phartner / Reading with a partner

Ceri: Mae fy ngwaith i'n anodd iawn ar hyn o bryd.

Mel: Pam?

Ceri: Mae fy swyddfa i'n rhy fach, mae fy nghyfrifiadur i'n rhy hen ac mae fy ymchwil i'n ddiflas!

Mel: O diar. Wyt ti'n mwynhau unrhyw beth?

Ceri: Ydw – mae'r gacen siocled ar brynhawn dydd Gwener yn fendigedig!

Disgrifio fy ngwaith i fy mhartner / describing my work to my partner

With each topic, make a statement like this, either positive or negative:
“Yn fy ngwaith i dw i’n ...” / “Yn fy ngwaith i, dw i ddim yn ...”:

Helpu pobl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gyrru o gwmpas yr ardal	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweithio mewn tîm	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gweithio gartref weithiau	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwisgo dillad arbennig	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Edrych ar y map	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

If your partner claims to do any of the work below, ask an extra question to continue the conversation:

*Defnyddio tabled/gliniadur	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ble?
*Siarad â chwsmeriaid	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ble?
*Ffonio pobl	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Pwy?
*Prynu pethau	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Beth?



Dim gobaith caneri / *No chance (not a canary's chance)*

Darllenwch


- Iola: Shwmae, Bryn! Wel, wel, dyma ti yn dy swydd newydd.
- Bryn: Ie, dyma fi, yn gwisgo iwnifform!
- Iola: Ble mae dy gap di?
- Bryn: Dw i ddim yn gwisgo cap yn y gwesty. Mae e yn y car.
- Iola: Dw i eisiau gweld dy gar di – ble mae e?
- Bryn: Yn y maes parcio yn y cefn. Dw i wedi parcio ar bwys dy gar di – Mini a Rolls Royce, bach a mawr!
- Iola: Doniol iawn. Pryd mae dy fòs di'n gorffen y cyfarfod?
- Bryn: Am un o'r gloch, dw i'n meddwl.
- Iola: Wyt ti wedi cael dy ginio?
- Bryn: Dim eto. Gaf i hanner dy frechdan di?
- Iola: Dim gobaith caneri. Dim bwyta yn y dderbynfa!

Darllenwch

- Iola: Shwmae, Bryn! Wel, wel, dyma ti yn dy _____ newydd.
- Bryn: Ie, dyma fi, yn _____ iwnifform!
- Iola: Ble mae dy _____ di?
- Bryn: Dw i ddim yn gwisgo _____ yn y gwesty. Mae e yn y _____.
- Iola: Dw i eisiau gweld dy _____ di – ble mae e?
- Bryn: Yn y _____ yn y cefn. Dw i wedi _____ ar bwys dy gar di – Mini a Rolls Royce, bach a _____!
- Iola: Doniol iawn. Pryd mae dy _____ di'n gorffen y cyfarfod?
- Bryn: _____ o'r gloch, dw i'n meddwl.
- Iola: Wyt ti wedi cael dy _____ ?
- Bryn: Dim eto. Gaf i hanner dy _____ di?
- Iola: Dim gobaith caneri. Dim bwyta yn y _____!


Nesa, actio heb sgrïpt, ond mae CARDIAU COFIO gyda chi.

Next, act it out with no script : PROMPT CARDS on the next page.



Cofia'r Treiglad Meddal ar ôl 'dy' / remember the soft mutation after 'dy'
Holi partner am fyd gwaith / interviewing a partner about the world of work.

Yn dy waith di ...

- Wyt ti'n defnyddio dy  di?
- Ble rwyd ti'n bwyta dy ginio di?
- Beth yw enw dy fòs di?
- Beth yw'r peth gorau yn dy waith di?
- Beth wyt ti'n ei hoffi am dy waith di?
- Beth dwyt ti ddim yn ei hoffi yn dy waith di?
- Beth fydd dy swydd nesa di?



Holi person ar y radio am fyd gwaith – a defnyddio 'chi'.
Change the above questions to use 'chi' for interviewing someone on the radio. Record the chat and listen to it with your partner.

Geirfa

aelodaeth – *membership*

antur – *adventure*

caer(au) – *fort(s)*

oes – *lifetime / (age, period)*

siambr(au) claddu – *burial chamber(s)*

abaty (abatai) – *abbey(s)*

cafiar – *caviar*

math – *type*

dro ar ôl tro – *time after time*

Prynu aelodaeth ar y we / Buying membership online

GWAITH PÂR: Darllen, deall a thanlinellu'r cyfarwyddiadau /
Reading, understanding and underlining instructions (imperative)



Ymunwch â Cadw heddiw.

Dewch i weld dros 100 o gestyll, abatai, caerau a siambrau claddu

Dewch yn ôl dro ar ôl tro – am ddim

Dewiswch eich math o aelodaeth a dechreuwch ar eich antur

- **Aelodaeth Unigol**
- **Aelodaeth Teulu**
- **Aelodaeth Oes**

Talwch gyda Paypal neu gerdyn credyd / debyd

Darllenwch gyda'ch partner / Read with your partner:

- Ffion:** Wyt ti'n gorffen gwaith am ddeuddeg yfory, Sali?
- Sali:** Ydw. Hanner shifft yfory, fel ti.
- Ffion:** Gwych. Dere i'r picnic yn y castell yn y prynhawn.
- Sali:** Dw i ddim yn aelod o Cadw.
- Ffion:** Wel, pryna aelodaeth ar y we nawr. Wyt ti eisiau help?
- Sali:** Ydw. Dw i'n nerfus iawn ar y we.
- Ffion:** Dim problem. Dyma fe. Dewisa'r math o aelodaeth. Aelodaeth Unigol, Aelodaeth Teulu neu Aelodaeth Oes?
- Sali:** Teulu dw i'n meddwl. Mae'r plant yn hoffi cestyll.
- Ffion:** Iawn, clicia ar Aelodaeth Teulu.
- Sali:** Mae e'n dweud, 'Talwch gyda Paypal' – does dim Paypal gyda fi.
- Ffion:** Dim problem. Tala gyda dy gerdyn debyd.
- Sali:** O, dw i'n gweld. Iawn – dw i wedi gorffen!
- Ffion:** Dere i'r castell fory am ddau o'r gloch. Bydd y picnic yn hwyl.
- Sali:** Cofia'r brechdanau ciwcymbyr a'r cafiar!

Tanlinellwch y geiriau sy'n rhoi cyfarwyddyd i ffrind /

Underline the verbs which give instructions – this time, to a friend.

Yn olaf, newidiwch y cyfarwyddiadau i 'chi' /

Finally, change the instructions back to the more formal 'chi'.

POSTERI YN Y GWEITHLE / POSTERS IN THE WORKPLACE

Dewiswch y poster gorau i'ch gweithle chi – A neu B? /
Choose the best poster for your workplace – A or B?

Golchwch eich cwpan.	Golchwch eich dwylo.
Cofiwch ffonio cyn 8 o'r gloch os dych chi'n dost.	Cofiwch brynu cacen i bawb ar eich pen-blwydd.
Os bydd tân, rhedwch!	Os bydd tân, peidiwch â rhedeg!
Dewch i'r cyfarfod staff heddiw am 4 o'r gloch.	Dewch i'r Ceffyl Gwyn heno am 8 o'r gloch.
Peidiwch â rhoi gwm cnoi yn y bin.	Peidiwch â bwyta wrth eich desg.

Gyda'ch partner, gwnewch boster i'r gweithle.

**POSTER
PWYSIG**

Geirfa

priodas – *wedding*

chwerthin – *laughter*

digon – *enough*

gormod – *too much/too many*

gweithgar – *hardworking*

glanio – *to land*

Sgwrs: GORMOD!

Ceri: Dw i wedi cael digon!

Mel: O diar. Beth sy'n bod?

Ceri: Mae pob problem yn glanio ar fy nesg i!

Mel: Problemau gyda'r diwrnod agored?

Ceri: Wrth gwrs! Dim ond tri diwrnod i fynd nawr...

Mel: Pwy sy'n helpu gyda'r gwaith?

Ceri: Beti Haf – ac mae hynny'n broblem hefyd.

Mel: Pam? Mae Beti'n berson gweithgar iawn.

Ceri: Ydy, ond mae hi'n priodi y mis nesa, ac mae hi'n siarad am y briodas drwy'r amser.

Mel: Ydy, mae hi'n siarad gormod am y briodas, dw i'n cytuno. Faint sy'n dod i'r diwrnod agored?

Ceri: Gormod! Tua dau gant, dw i'n meddwl.

Mel: Paid â phoeni gormod, Ceri. Bydd y diwrnod agored yn wych, dw i'n siŵr.

Siarad am waith gyda phartner / discussing work with your partner

Ydych chi'n cytuno ✓ neu'n anghytuno ✗ ?

	Partner A	Partner B
Yn fy ngwaith i, dw i'n teithio gormod.		
Yn fy ngwaith i, dw i yn y swyddfa gormod.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n mynd i gyfarfodydd.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n gweithio tri deg saith awr bob wythnos.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n dysgu pethau newydd bob dydd.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n gweithio mewn tîm.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n llenwi ffurflen gostau.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n siarad â chwsmeriaid.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n cael ugain diwrnod o wyliau.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n siarad ar y ffôn.		
Yn fy ngwaith i, dw i'n darllen ebyst.		

Geirfa

meithrinfa – *nursery*

cyngor – *advice, counsel; council*

cynllun(iau) – *plan(s)*

pensaer – *architect*

cadeirio – *to chair*

casglu – *to collect*

rheoli – *to manage*

un peth ar y tro – *one thing at a time*

Person A

Dyma'r rhestr bersonol ar eich desg chi – ar gyfer fory.

1. pacio fy mag heno
2. codi am 7.00 bore fory
3. gwranddo ar Radio Cymru amser brecwast (mae'r tiwtor Cymraeg wedi dweud!)
4. gyrru'n ofalus ar yr A470
5. cadeirio'r cyfarfod
6. siarad â Tom Huws wedyn
7. prynu diod i Ceri a holi am y babi newydd
8. prynu swper parod ar fy ffordd adre
9. anfon ebost at bawb yn y cyfarfod i ddweud diolch
10. ymlacio cyn mynd i'r gwely – darllen fy nofel Gymraeg!

Nawr dwedwch wrth eich partner beth dych chi'n mynd i wneud, un peth ar y tro – cofiwch y treigladd meddal. Bydd eich partner yn disgrifio un peth ar y tro hefyd. / *Now tell your partner what you must do, one thing at a time – remember the soft mutation. Your partner will respond by telling you what he/she has to do, one thing at a time.*

e.e./e.g. Rhaid i fi bacio fy mag heno.

Person B

Dyma'r rhestr bersonol ar eich desg chi – ar gyfer fory.

1. darllen yr adroddiad heno
2. codi am 8.00 bore fory
3. mynd â'r babi i'r feithrinfa
4. rhoi liff i Sara Morgan o'r orsaf
5. mynd i weld y pensaer
6. mynd â'r cynlluniau i'r swyddfa
7. cwrdd â fy chwaer i gael cinio
8. ateb pob ebost yn y prynhawn
9. casglu'r babi o'r feithrinfa
10. cael swper gyda fy mam-yng-nghyfraith – a dweud diolch yn Gymraeg!

Nawr dwedwch wrth eich partner beth dych chi'n mynd i wneud, un peth ar y tro – cofiwch y treigladd meddal. Bydd eich partner yn disgrifio un peth ar y tro hefyd. / *Now tell your partner what you must do, one thing at a time – remember the soft mutation. Your partner will respond by telling you what he/she has to do, one thing at a time.*

e.e./e.g. Rhaid i fi ddarllen yr adroddiad heno.

Rhoi cyngor / giving advice



Rhaid i bawb yn y dosbarth roi cyngor / *Everyone in the class must give a piece of advice in response to the problem.*

A: Mae problem gyda fi.

B: Beth sy'n bod?

A: Mae cefn tost gyda fi.

B: Rhaid i ti weld osteopath.

A: Diolch!

Problemau, problemau, problemau

- Mae fy nghar i wedi torri.
- Mae fy môt i'n mynd ar wyliau am dair wythnos.
- Does dim signal ffôn yma.
- Does dim bocsinio gyda fi heddiw.
- Dw i ddim eisiau mynd ar y cwrs Rheoli Amser.

Geirfa

cyfle – opportunity

cyngor sir – county council

digwyddiad(au) – event(s)

geirda – reference (good word/testimonial)

cynnig am – to apply for

gwenu – to smile

syllu – to stare

anobeithiol – hopeless

draw – over

Darllenwch

Sgwrs: SWYDD NEWYDD

Alex: Dw i'n mynd i wneud cais am swydd newydd.

Pat: Bendigedig! Beth yw'r swydd?

Alex: Swyddog digwyddiadau gyda'r cyngor sir.

Pat: Bydd hynny'n grêt i ti. Ond bydd hi'n dawel yma ar ôl i ti fynd.

Alex: Hei, aros am funud. Cyn i fi gael y swydd, rhaid i fi gael cyfweiliad.

Pat: Dim problem. Rwyd ti'n gallu siarad yn dda.

Alex: Cyn i fi gael cyfweiliad, ga i ofyn ffafr?

Pat: Wrth gwrs. Wyt ti eisiau ymarfer cyn i ti fynd i'r cyfweiliad?

Alex: Nac ydw, ond wyt ti'n fodlon ysgrifennu geirda i fi?

Pat: Wrth gwrs. Ond rhaid i ti brynu coffi a chacen fawr i fi!

Darllenwch eto.

Alex: Dw i'n mynd i wneud cais am _____.

Pat: Bendigedig! Beth _____ swydd?

Alex: Swyddog digwyddiadau gyda'r _____ sir.

Pat: Bydd hynny'n grêt i ti. Ond bydd hi'n dawel yma _____
_____ fynd.

Alex: Hei, aros am funud. _____ gael y swydd,
_____ gael cyfweiliad.

Pat: Dim problem. Rwyf ti'n gallu _____ yn dda.

Alex: _____ gael cyfweiliad, ga i ofyn ffafr?

Pat: Wrth gwrs. Wyt ti eisiau ymarfer _____ fynd i'r cyfweiliad?

Alex: Nac ydw, ond wyt ti'n fodlon _____ geirda i fi?

Pat: Wrth gwrs. Ond _____ brynu coffi a chacen fawr i fi!



Beth ddigwyddodd ar ddiwrnod y cyfweliad? Darllenwch stori Alex.

Cyrhaeddais i'r maes parcio yn gynnar.

Cyn i fi fynd i mewn, es i i'r tŷ bach – wrth gwrs!

Ar ôl i fi ddod ma's o'r tŷ bach, es i draw i'r dderbynfa.

Roedd tri o bobl yn eistedd ar y cadeiriau smart wrth y ffenest. Gwenais i ond doedd y person nesa at y dderbynfa ddim yn gwenu o gwbl, dim ond yn edrych ar y ffôn.

Edrychais i ar y person nesa a ches i sioc! Roedd fy hen gariad yn eistedd yno, yn gwenu o glust i glust!

Ar ôl i fi gael munud i feddwl, codais fy llaw a dwedais i, 'Shwmae!'

Cyn i fi glywed yr ateb, gofynnodd y fenyw yn y dderbynfa,

'Dych chi wedi parcio yn ein maes parcio ni?'

'Ydw,' atebais.

'Rhaid i chi gael tocyn glas, felly,' dwedodd hi. 'Dyma'r tocyn i chi.'

Diolchais i am y tocyn ac es i ma's i'r maes parcio.

Ar ôl i fi roi'r tocyn ar y car, ffoniais i fy ffrind.

'Hei, mae Sam yma, yn cael cyfweliad am y swydd – fel fi!'

'Bois bach, RHAIID i ti gael y swydd nawr 'te. Rhaid i ti siarad yn ardderchog yn y cyfweliad! Bydd Sam yn anobeithiol, felly paid â phoeni. Pob lwc!'

Mae ffrind da yn werth y byd.

Cyn i fi adael y car, edrychais yn y drych. 'lawn, Alex, dyma dy gyfle di...'

Tanlinellwch y patrwm newydd (rhaid i fi/ti; cyn i fi; ar ôl i fi) yn y stori / Underline the new patterns (rhaid i fi/ti; cyn i fi; ar ôl i fi) where they appear in the story.

Trafod gyda phartner:

- Beth wnaeth Alex ar ôl y cyfweliad?
- Gafodd Alex y swydd?
- Sut dych chi'n teimlo cyn i chi gael cyfweliad?



UNED 25

Geirfa

golygfa – *view*cefnogol – *supportive*di-bapur – *paperless*gwyllt – *wild*hen ffasiwn – *old-fashioned*

Dyma beth sy yn y SWYDDFA NEWYDD

- cadeiriau cyfforddus
- desgiau hen ffasiwn
- staff ifanc
- coffi cryf
- jôcs anobeithiol
- toiledau glân
- bôs cefnogol

Holi partner / questioning your partner

e.e. / e.g.

C: Sut mae'r coffi yn y swyddfa yma?

A: Mae'r coffi'n gryf.

Holi eto: Darllenwch y cerdyn a gofynnwch y cwestiwn i'ch partnere.e. **Oes cwpwrdd ffeilio yma?****Oes. / Nac oes. Does dim cwpwrdd ffeilio yma.**

Ydy'r partner yn gallu dweud rhywbeth arall?

Oes, mae cwpwrdd ffeilio yma, wrth y drws. Ond mae'r swyddfa'n ddi-bapur nawr!

ystafell fideo	cwpwrdd ffeilio
golygfa	ystafell staff
cegin	ardal ysmegu
ystafell bwydo babi	biniau ailgylchu
peiriant coffi	staff cyfeillgar

NEU

Digon o... NEU gormod o... NEU does dim...

Darllenwch y cerdyn a disgrifiwch eich gwaith chi –
treigladd meddal ar ôl 'o'.

gwaith papur	chwerthin
cadeiriau cyfforddus	teithio
amser i feddwl	cwsmeriaid anodd
cyfarfodydd	biniau ailgylchu
siarad agored	syniadau newydd

UNED 26

Geirfa

cyflog(au) – salary (-ies)

cyllid – finance

hwyliau da – good mood

hwyliau drwg – bad mood

wrth ei bodd – in her element / delighted

wrth ei fodd – in his element / delighted

Darllenwch y sgwrs: Ble mae dy ferch di nawr?

Sam: Ble mae dy ferch di nawr? Ydy hi yn Awstralia o hyd?

Mel: Ydy, mae hi'n gweithio yn Melbourne.

Sam: Da iawn hi. Beth yw ei gwaith hi?

Mel: Swyddog cyllid yw hi. Mae hi wrth ei bodd yn y swydd.

Sam: Ydy hi'n byw yn agos at ei gwaith?

Mel: Wel, mae hanner awr o deithio gyda hi, ond mae hi'n mynd i'r gwaith ar ei beic. Mae hi'n gallu gadael ei char yn y garej yn y tŷ.

Sam: Ble mae hi'n cadw ei beic yn ystod y dydd?

Mel: Mae stordy beiciau gyda nhw. Mae cawodydd gyda nhw hefyd, felly ymarfer corff i ddechrau ac yna ar ôl iddi gael ei chawod mae hi'n dechrau'r diwrnod mewn hwyliau da.

Sam: Fel ni yma, 'te!

Mel: Hmm.

Trafod gyda'ch partner:

- Wyt ti'n hoffi'r syniad o gael cawod yn y gweithle?
- Wyt ti'n dechrau'r bore mewn hwyliau da neu mewn hwyliau drwg?

DOES DIM MERCH GYDA FI – MAB YW E!

Newidwch y sgwrs cyn darllen. Cofiwch y treigladau meddal ar ôl ‘ei’ (his).

Adapt the script before reading. Remember: ‘ei’ (his) causes a soft mutation.

Sam: Ble mae dy ferch di nawr? Ydy hi yn Awstralia o hyd?

Ble mae dy fab di nawr?

Mel: Ydy, mae hi’n gweithio ym Melbourne.

Sam: Da iawn hi. Beth yw ei gwaith hi?

Mel: Swyddog cyllid yw hi. Mae hi wrth ei bodd yn y swydd.

Sam: Ydy hi’n byw yn agos at ei gwaith?

Mel: Wel, mae hanner awr o deithio gyda hi, ond mae hi’n mynd i’r gwaith ar ei beic. Mae hi’n gallu gadael ei char yn y garej yn y tŷ.

Sam: Ble mae hi’n cadw ei beic yn ystod y dydd?

Mel: Mae stordy beiciau gyda nhw. Mae cawodydd gyda nhw hefyd, felly ymarfer corff i ddechrau ac yna ar ôl iddi gael ei chwod mae hi’n dechrau’r diwrnod mewn hwyliau da..

Sam: Fel ni yma te!

Mel: Hmm.

BINGO'R STAFF

Ymarfer ynganu i bawb! Wedyn dyma'r cardiau geiriau i'r person sy'n galw.

eu swyddfa nhw	eu gwyliau nhw	eu hadeilad nhw	eu harholiad nhw
eu cwmni nhw	eu ffatri nhw	eu sbwriel nhw	eu cyfarfod nhw
eu toiledau nhw	eu cadeirydd nhw	eu hallanfa nhw	eu rheolwr nhw
eu desgiau nhw	eu cyrsiau nhw	eu peiriant coffi nhw	eu sgiliau nhw
eu problem nhw	eu beiciau nhw	eu derbynfa nhw	eu cyflogau nhw
eu bôs nhw	eu cwyn nhw	eu cawodydd nhw	eu maes parcio nhw
eu diogelwch nhw	eu cyllid nhw	eu hwyliu nhw	eu cwsmeriaid nhw
eu stiwdio nhw	eu hadran nhw	eu parti nhw	eu gwefan nhw



Gwnewch eich cerdyn eich hun / make your own card.

Ysgrifennwch 6 dewis yn y blychau / Write 6 choices in the boxes.

CERDYN BINGO

CWIS: GWAITH DIDDOROL Darllenwch gyda'ch partner

Rhaid iddo fe ddarllen 'autocue'.

Rhaid iddo fe wisgo crys, tei a siaced bob nos.

Rhaid iddo fe baratoi'r sgript a dweud enwau anodd yn gywir.

Pwy yw'r person?

Canodd e yng nghystadleuaeth 'Canwr y Byd Caerdydd'.

Pan oedd e'n ifanc roedd e'n byw ar fferm ar bwys Caernarfon.

Yn 2019 perfformiodd e yn Bucharest, Vienna, Tyddewi a Sydney.

Pwy yw'r person?

Mae hi'n canu ac yn gweithio ar y radio.

Aeth hi i ysgol Gymraeg yn Abertawe.

Canodd hi yng Nghwpan Rygbi'r Byd.

Pwy yw'r person?




GWEITHGAREDD GRŴP


Mae angen dis (*dice*) a'r cardiau.

Taflwch y dis a dweud rhywbeth gan ddilyn y patrwm / *Throw the dice and make a statement using this pattern and a card from the set below:*



Fy ... i




dy ... di




ei ...e



ei ... hi



eich ... chi



eu ... nhw

e.e.



Beth yw mêt
dy liniadur di?



Glas yw lliw
fy nghadair i

mêt - gliniadur	enw - bôs
dyddiad - gwyliau	enw - cwsmer pwysig
oed - car	lliw - desg
maint - swyddfa	lliw - cadair
enw - cyfrifydd	lliw - esgidiau

Geirfa

Ilwyth – a load

anghofio – to forget

Ilwyddo – to succeed

Sgwrs: GORFFEN Y CWRS CYMRAEG

Eirian: Mae Ilwyth o waith gyda fi heddiw. Beth wyt ti'n wneud ar ôl cinio?

Pat: Dw i'n mynd i'r dosbarth Cymraeg heddiw, ti'n cofio?

Eirian: O, wrth gwrs, anghofiais i.

Pat: Dyma'r sesiwn ola heddiw. Bydda i'n sefyll yr arholiad y mis nesa.

Eirian: Byddi di'n llwyddo, dw i'n siŵr. Rwyd ti wedi dysgu mor gyflym!

Pat: Wel, diolch am fod mor gefnogol. Rhaid i fi adolygu nawr. Treigladd trwynol: 'fy mhen i', 'fy mhroblem i', 'fy nghof i'!

Eirian: Ha ha. Mae fy nghof i'n broblem fawr hefyd! Gaf i ddod i'r dosbarth y flwyddyn nesa?

Pat: Cei, wrth gwrs. Rwyd ti'n gwneud cacennau hyfryd ar gyfer amser coffi.

Trafod gyda'ch partner

Beth yw'r pethau pwysig i ti wrth adolygu?

GAIR O GYNGOR GAN RHIAN


Mae Rhian wedi gorffen y cwrs Mynediad ac mae hi wedi llwyddo yn yr arholiad. Mae hi'n gwneud cwrs Sylfaen nawr.

Mae Rhian yn dweud...

1. Rhaid i chi ymarfer siarad am y tywydd bob dydd.
2. Rhaid i chi drïo gwrando ar BBC Radio Cymru yn y car.
3. Rhaid i chi drïo dysgu chwe gair newydd bob dydd.
4. Rhaid i chi beidio â siarad Saesneg yn y dosbarth.
5. Rhaid i chi ymarfer, ymarfer, ymarfer.
6. Rhaid i chi siarad Cymraeg yn y gwaith.

Nawr, gyda phartner ysgrifennwch chi ddau bwynt arall.

Wedyn, rhowch eich 6 pwynt gorau ar slipiau 'postio' mewn pyramid.



Ydy pawb yn y dosbarth yn cytuno ar beth sy'n bwysig iawn?

Ydy'r tiwtor yn cytuno? (Gofynnwch iddo fe /iddi hi).